
Brig y Goeden

# Anodd eu Plesio

NICK WARBURTON



# Anodd eu Plesio

NICK WARBURTON

Lluniau gan John Rogan



DRAKE

# Byns da, byns blasus



Roedd Mr Pywel y Pobydd yn brysur yn llwytho ei fan â byns a chacenni.

"Hywel!" galwodd. "Ble rwyt ti?"

Roedd Hywel yn ei ystafell. Roedd yn hanner cysgu ac yn hanner effro. Roedd yn syllu ar y wal ac yn meddwl am ei ddyfeisiadau. Rhywbeth clyfar i wneud byns Pywel y goreuon yn yr ardal. Neu rywbeth rhyfeddol i gadw'r bara yn gynnes yn y fan.




"HYWEL!"

Neidiodd Hywel i'w draed a chlindarddach i lawr y grisiau.

"Hywel, Hywel," meddai Mr Pywel. "Wyt ti wedi anghofio? Heddiw rydyn ni'n mynd â'r byns i Siop De Swynol y Brodyr Siarl. Os byddan nhw'n eu hoffi byddan nhw'n eu gwerthu."







"Byddan nhw'n siwr o'u hoffi, Dad," meddai Hywel. "Rwy'n gwybod y byddan nhw."

Ond doedd Mr Pywel ddim mor siwr. Roedd y Brodyr Siarl yn anodd eu plesio. Gwyddai pawb hynny. Serch hynny, llwythodd e weddill y byns i gefn y fan, a llwythodd e Hywel i'r blaen. Yna taniodd yr injan ac i ffwrdd â nhw.

Roedd Dic Siarl yn disgwyl amdanyn nhw wrth ddrws ei Siop De Swynol. Edrychodd ar ei oriawr a thapio ei droed. Dyn byr oedd e â wyneb hir iawn. Roedd yn gas gan Dic wastraffu amser. A doedd e byth yn gwastraffu amser trwy wenu.




Roedd Mic Siarl yn y Siop De, yn taro dwster dros fyrddau budr. Gwelodd e Mr Pywel, ond wenodd e ddim. Doedd e byth yn gwenu a doedd e byth bythoedd yn chwerthin.

Rhoddodd Mr Pywel ddwy fynsen drwchus braf ar ddau blât. Cymerodd Dic lond dant. Brathodd Mic friwsionyn. Edrychai'r ddau yn drist ac yn flin.





"Dim yn ddrwg," meddai Dic. "Dim yn ddrwg."

"Ond beth fydd y gost?" gofynnodd Mic.

Nododd Mr Pywel ei bris.

"Gormod, gormod," meddai'r ddau frawd Siarl gyda'i gilydd. "Byns neis, byns da, ond fedrwn ni mo'u fforddio. Rhaid inni dalu am y te a rhaid inni dalu am y siop. Rhaid inni dalu am y byrddau a'r cadeiriau, a rhaid inni dalu i'w cadw'n lân."

Ochneidiodd Mr Pywel druan a siglo ei ben. Wnâi'r Brodyr Siarl ddim gwerthu ei fyns.





"Galla i eich helpu 'da hynny," meddai Hywel.

"Sut?" gofynnodd Mic yn eiddgar.

Wyddai Hywel ddim ond meddyliodd yn galed a meddyliodd yn gyflym. A sbonciodd syniad i'w ben.

"Mae gen i beiriant wnaiff gadw'ch byrddau'n lân," meddai.

Edrychodd Dic ar Mic a thynnu wyneb diflas. Tynnodd Mic wyneb diflas yn ôl.

"Iawn," medden nhw. "Tyrd ag e yma ac fe gawn ni olwg arno."

# Byz Un a'r pwdin reis




Pan aeth Hywel 'nôl i'r popty, aeth yn syth i'w ystafell a dechrau gweithio ar beiriant clyfar a rhyfeddol. Caeodd ei hun i mewn am ddyddiau, a dyfalu a meddwl a ffidlan. Deuai synau morthwylio a chloncian o'i ystafell. Ar ddiwedd yr wythnos, taflodd ei ddrws ar agor.



"Mae'n gweithio! Mae'n gweithio!" gwaeddodd. "Dewch i edrych!"

Daeth Mr Pywel i edrych. Gwelodd fath o fin sbwriel ar olwynion â darnau o wifren yn sticio allan ohono. Roedd ganddo un fraich hir â sbwng gwlyb ar y pen. Pan daniodd Hywel y peiriant, symudai'r fraich o ochr i ochr.

"Byz Un yw ei enw," meddai Hywel yn hapus.






Drannoeth, llwythodd y ddau Byz Un ar y fan a mynd ag e i'r Siop De Swynol. Eisteddodd Dic a Mic ar ddwy hen gadair flêr. Plygon nhw eu breichiau a gwneud wynebau diflas.

"Cewch eich syfrdanu," rhybuddiodd Hywel Pywel wrth danio'r peiriant.





Roedd Dic a Mic yn syfrdan. Crynodd a chorddodd y peiriant ac ysgubo platiad o bwdin reis oddi ar fwrdd budr. Aeth hanner i arffed Dic a hanner i arffed Mic. Gwnaeth lanast ofnadwy.

"Y mwlsyn!" gwaeddodd Mic. "Edrych ar ein trowsusau ni!"

"Ond fuodd e bron â gweithio," eglurodd Hywel.


"Cer o 'ma! Cer o 'ma!" bloeddiodd Dic.



Yn ôl yn y popty, bu Hywel yn meddwl yn galed am awr neu ddwy. Meddyliodd am y pwdin reis a meddyliodd am Dic a Mic. Yna meddyliodd am y ddwy hen gadair flêr roedden nhw'n eistedd arnynt a'r holl fyrddau budr, a chafodd syniad newydd.

Caeodd ei hun o'r golwg eto, a gweithio'n galetach nag erioed. Aeth wythnos heibio. Clywodd Mr Pywel lawer o sŵn morthwylio a ffustio yn dod o'i ystafell.





Yna stopiodd y ffustio, ac yno safai bocs mawr tun â goleuadau lliwgar ar y top ac olwynion ar y gwaelod. Roedd coiliau o wifren yn dod allan o'r ochrau mewn clymau. Ar ben tair braich hir fetel roedd tri brws paent - mawr, canolig a bach.

Gwrandawai Mr Pywel y tu allan i'r drws. Clywodd Hywel yn canu wrth iddo roi cot o baent ar ei beiriant newydd. Llyfiad fan hyn a chyffyrddiad fan draw. Llyfiad ar y bocs tun a chyffyrddiad ar ei bajamas. Cyffyrddiad ar y breichiau metel a llyfiad ar ei foch.

Yna, taflodd Hywel y drws yn agored a syrthio dros ei dad.

"Edrychwch ar hwn, Dad," meddai.

Edrychodd Mr Pywel a rhyfeddu.

"Dad," meddai Hywel, "dyma Byz Dau, y Peiriant Paentio. Byz Dau, dwed helo."

Fflachiodd y goleuadau ar ben Byz Dau fel petai'n dweud helo.





"Mae angen byrddau llachar braf ar y Brodyr Siarl a bydd y peiriant hwn yn gwneud paentio'n hawdd," esboniodd Hywel. "Rwy'n dweud wrtho fe beth i'w wneud ac mae'n ei wneud e. Os ydw i'n dweud p-a-e-n-t-i-a'r bwrdd, fe wnaiff e hynny."

Roedd yn rhaid i Hywel sillafu'r gair 'paentia'. Os byddai'n ei ddweud yn iawn, byddai Byz Dau yn bwrw ymlaen. Y peth rhyfeddol a chlyfar am y peiriant hwn oedd ei fod yn gweithio yn ôl sŵn llais Hywel.

"Beth am ei drio?" meddai. "Gawn ni Byz Dau i baentio fy mwrdd i?"



Ar unwaith dechreuodd y fraich fetel â'r brws mawr ganu grwndi a chwyrlïo.

"Stopia, Byz Dau," meddai Hywel gan glapio ei ddwylo. "Dydyn ni ddim yn barod eto."

A stopiodd y peiriant.

"Wel," meddai Mr Pywel, "gobeithio ei fod yn iawn 'da ti y tro hwn."

Roedd y dafn olaf o baent wedi ei ddefnyddio i baentio Byz Dau, felly rhuthrodd Hywel i'r gegin a dychwelyd â thun o surop.

"Mae hwn yn eitha tebyg i baent," meddai. "Fydd Byz Dau ddim yn gwybod y gwahaniaeth."

Arllwysodd y surop i dop y bocs tun a safodd yn ôl.





"Byz Dau, paentia dop y bwrdd," meddai Hywel.

A dechreuodd y peiriant ganu grwndi a chwyrlïo eto. Fflachiodd y goleuadau a phwysodd y fraich-frws i mewn i'r surop a dechrau paentio. Roedd surop dros wyneb bwrdd Hywel, lle roedd i fod. Ond roedd surop mewn llawer o leoedd eraill hefyd. Roedd yn rhaid i Hywel a'i dad gyrcydu y tu ôl i'r setî nes i Byz Dau orffen.

"Nawr mae angen peiriant arnon ni i sychu'r surop," cwynodd Mr Pywel.

"Ond mae'n gweithio, Dad," canodd Hywel, gan sgipio o gwmpas yn y pyllau surop. "Mae'n gweithio i ni a bydd yn gweithio i Mic a Dic. Yna byddan nhw'n falch a byddan nhw'n prynu ein byns!"

"Os wyt ti'n dweud," meddai ei dad, ond doedd e ddim yn swnio mor siwr.

Drannoeth, dywedodd Mr Pywel wrth Mic a Dic am y Peiriant Paentio a pha mor glyfar a rhyfeddol yr oedd. Bu'r ddau yn mwmial ac yn grwgnach ac yn gwgu ar ei gilydd.

"Clyfar a rhyfeddol, ife?" gofynnodd Dic.


"A dyw e ddim yn taflu pwdin reis ar hyd y lle?" meddai Mic.

Addawodd Mr Pywel nad oedd.

"O'r gorau," meddai'r brodyr. "Down ni i gael cipolwg arno fe."



## Byz Dau ar waith



Am saith o'r gloch y noson honno roedden nhw'n curo ar ddrws y popty. Gwahoddodd Hywel nhw i mewn a gwenu arnyn nhw mor glên ag y medrai. Wnaethon nhw ddim gwenu yn ôl.

Aeth Hywel â nhw i'w ystafell wely. Roedd Dad yn aros amdanyn nhw â gwên nerfus. Roedd tun newydd sbon o baent coch wrth law.



Arllwysodd Hywel y paent coch i mewn i dop Byz Dau, ei danio a chroesi ei fysedd.

"Byz Dau," meddai Hywel, "paentia'r bwrdd."

Sïodd y brws mawr i fyny ac i lawr ac o ochr i ochr. Mewn amrantiad roedd y bwrdd yn goch disglair. Lledodd llygaid Dic wrth iddo wylio'r Peiriant Paentio ar waith.

"Anhygoel!" meddai. "Gallai hwn arbed punnoedd ar bunnoedd inni yn y Siop De."





Yna daeth golwg gyfrwys dros ei wyneb.

"Ai byrddau yn unig mae'n eu gwneud?" gofynnodd. "All e wneud cadeiriau?"

"O gall," atebodd Hywel. "Mae'n gallu gwneud cadeiriau hefyd. Gwyliwch."

Gafaelodd mewn cadair a'i rhoi o flaen y Peiriant Paentio. Yna cliriodd ei lwnc.

"Byz Dau, paentia'r gadair hon."

Hymiodd Byz Dau a fflachio ei oleuadau... ond symudodd e ddim.

"Dyw e ddim yn gweithio!" meddai Dic a Mic gyda'i gilydd.

"Mae angen cyfarwyddiadau pellach arno," eglurodd Hywel. "Dim ond byrddau mae wedi eu gwneud hyd yn hyn. Byz Dau," meddai, "paentia'r coesau."

A'r tro hwn dechreuodd y Peiriant Paentio symud. Newidiodd i'r brws bach a dechrau lledu'r paent ar y goes agosaf ar gyflymder uchel.



"O diar," meddai Hywel. "Dydi hyn ddim yn hollol iawn."

A doedd e ddim yn hollol iawn. Roedd Byz Dau yn paentio'r goes agosaf, fel yr oedd Hywel wedi dweud wrtho am wneud, ond nid y gadair oedd yn berchen ar y goes agosaf. Coes Dic Siarl oedd hi.

Gwichiodd Dic fel mochyn a cheisio llamu o'r ffordd. Ond powliodd Byz Dau ar ei ôl a pharhau i baentio. Roedd un o goesau Dic eisoes yn goch, ac roedd y peiriant yn paratoi i ddechrau ar yr ail goes.

"Gwnewch rywbeth!" gwaeddodd Dic Siarl.





"Gwnaf, gwnaf, wrth gwrs," gwaeddodd Hywel. "Byz Dau, paentia'r sêt!"

Stopiodd Byz Dau baentio coesau Dic a dechrau ar ei ben ôl.

"Na, na," gwaeddodd Mr Pywel. "Sêt y gadair. Tyrd o'na Byz Dau. Rho'r gorau i chwarae o gwmpas!"

Ond roedd hi'n rhy hwyr. Roedd gan Dic Siarl ddwy goes goch a phen ôl coch. A doedd e ddim yn edrych yn hapus.





"Wps," meddai Hywel. Fedrai e ddim meddwl am unrhyw beth arall i'w ddweud.

Yna clywodd sŵn rhyfedd. Sŵn gwichian, ffrwtian, cecian. Roedd e'n meddwl mai Byz oedd yn creu'r sŵn ond nid felly yr oedd. Mic oedd yn cadw'r sŵn. Roedd dagrau yn powlio ar hyd ei wyneb ac roedd e'n ...

CHWERTHIN.

Dyma oedd y tro cyntaf erioed i unrhyw un weld Mic yn chwerthin.



"O diar," chwarddodd. "O diar, o diar! Dydw i erioed wedi gweld unrhyw beth mor ddoniol yn fy myw. O Dic, rhaid dy fod ti'n gweld yr ochr ddigri."

Edrychodd Dic ar ei goesau cochion a theimlodd ei ben ôl gwlyb â'i fysedd.

"Dyw e ddim yn ddoniol," ysgyrnygodd.

"Mae e, mae e!" sgrechiodd Mic, gan ysgwyd yn ôl ac ymlaen a dal ei ochrau.

"Cawn ni weld am hynny," meddai Dic.

"Byz Dau, paentia'r clustiau!"





Hymiodd y peiriant a fflachio. Herciodd yn fyw eto a dechreuodd rolio i gyfeiriad Mic.

"Ow!" gwaeddodd Mic. "Ow, ow, ow!"

Ceisiodd wyro o'r ffordd ond roedd e'n rhy gyflym iddo. Slop! Un glust goch. Slap! Dwy glust goch.

"Hah!" gwaeddodd Dic. "Nawr y trwyn!"

Aeth Byz Dau i weithio ar drwyn Mic.

"Ow ! Ow, ow, ow!"



Ac yna, yn araf iawn, dechreuodd ochrau ceg Dic symud. Gwnaeth sŵn snwffian.

Ac roedd Dic yn chwerthin, hefyd!

"O diar, o diar," chwarddodd Mic. "Am beiriant rhyfeddol. Rhaid inni gael un, Dic."

"Oes, mae'n rhaid," cytunodd Dic. "Ac mae'n rhaid inni gael llwyth o fyns Mr Pywel hefyd."

Roedd Byz Dau yn llwyddiant ysgubol gyda chwsmeriaid y Siop De Swynol. Pan fyddai Mr Pywel a Hywel yn mynd â'u byns i'r siop, bydden nhw'n hoffi aros a'i wylio yn gweithio.



"Mae'n beiriant gwych, Hywel," meddai Mr Pywel. "Go dda ti."


Roedd e mor llwyddiannus fel y bu'n rhaid paentio'r byrddau a'r cadeiriau drosodd a thro. O bryd i'w gilydd, byddai'n mynd o chwith ac yn paentio Dic neu Mic. Byddai pawb yn bloeddio hwrê ac yn chwerthin.

Yn amlach na pheidio byddech yn clywed chwerthin uchel o Siop De Swynol Siarl. Ond doedd neb yn chwerthin yn uwch nac yn hirach na Dic a Mic Siarl eu hunain.



# Am yr awdur

Pan oeddwn i'n athro, roeddwn i'n mwynhau drama a darllen llyfrau'n uchel gyda phlant. Roedd hyn yn fy ysgogi i ysgrifennu ac ers hynny rwyf wedi ysgrifennu nifer o sgriptiau ar gyfer y radio, y llwyfan a'r teledu - a thri ar ddeg o lyfrau plant. Rwy'n hoffi fflaniau sticlyd, trioglyd a byns hefyd, ond dydw i ddim yn cofio dyfeisio unrhyw beth erioed.



Rwy'n mwynhau darllen, bron unrhyw beth sy'n ymwneud â chriced, a seiclo o gwmpas Caergrawnt, lle rydw i'n byw gyda fy nheulu.

**Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 11:**

*Fflaniau'n Fflïo* gan Nick Warburton
*Anodd eu Plesio* gan Nick Warburton
*Siwt Syr* gan Nick Warburton
*Ffion a'r Draenogod* gan John Coldwell
*Clustiau Rhyfeddol Owen Bowen* gan David Cox ac Erica James
*Cynllun Cyfrwys Sara* gan John Coldwell
*Esgidiau Ymarfer Peryglus* gan Susan Gates
*Ieu a Dei ar Waith* gan Nick Warburton
*Cewri Carys* gan Nick Warburton
*Cyfle Mawr Manon* gan John Coldwell

Anodd eu Plesio

Brig y Goeden

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 11

Mae tad Hywel Pywel yn pobi byns blasus. Ond sut y gall e gael y Siop De Swynol i'w gwerthu? Yn fuan, caiff Hywel un o'i syniadau disglair.



ISBN 0-86174-446-2
9 780861 744466
ISBN 0 86174 446 2
DRAKE